**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**6ed Chwefror 2012**

**MONITRO PERFFORMIAD**

**Adroddiad gan Shân Morris,**
**Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Gwybodaeth**

**2.** Wedi ei atodi, er gwybodaeth i'r Aelodau, mae'r adroddiad monitro am tri chwarter y flwyddyn adrodd 2011/12, sef y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2011 a 31ain Rhagfyr 2011.

**Argymhelliad**

**3.** Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**TRI CHWARTER**

**EBRILL 2011 – RHAGFYR 2011**

**Ffigyrau am y tro ydynt, ac fe allent fod yn agored i fân newidiadau**

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| | **TANAU** | **2-6** |
| OPSW_6.1 | Cyfanswm y galwadau | |
| RRC/S/001 | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| RRC/S/003 | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| | **AROS YN DDIOGEL** | **7-9** |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd | |
| | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| RRC/C/005 | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn cartrefi ble bu tanau | |
| | | |
| | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **10** |
| | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| | **GALWADAU DIANGEN** | **11-12** |
| RRC/C/002 | Galwadau diangen maleisus | |
| RRC/C/003 | Galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **ERAILL** | **13** |
| | Diffinio'r tanau | |

## TANAU – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

**ELENI– 2011/12**

(HYHE = Hyd yn hyn eleni)

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid

🡅 = cynnydd eleni 🡇 = gostyngiad eleni ➨ = dim newid

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau* | 4,547 | 4,374 | 4,045 | | 12,966 | 🡇 6% |
| Yr holl danau | 999 | 703 | 673 | | 2,375 | 🡇 6% |
| Prif danau | 338 | 299 | 342 | | 979 | 🡇 5% |
| Tanau eilaidd | 622 | 390 | 252 | | 1,264 | 🡇 4% |
| Tanau simnai | 39 | 14 | 79 | | 132 | 🡇 30% |
| Yr holl danau bwriadol | 494 | 356 | 233 | | 1,083 | 🡇 7% |
| Yr holl danau damweiniol | 505 | 347 | 440 | | 1,292 | 🡇 6% |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 112 | 84 | 146 | | 342 | 🡇 5% |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 57 | 52 | 52 | | 161 | 🡇 5% |

**Y LLYNEDD – 2010/11**

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau* | 5,083 | 4,210 | 4,469 | | 13,762 |
| Yr holl danau | 1,207 | 636 | 693 | | 2,536 |
| Prif danau | 357 | 301 | 374 | | 1,032 |
| Tanau eilaidd | 790 | 318 | 208 | | 1,316 |
| Tanau simnai | 60 | 17 | 111 | | 188 |
| Yr holl danau bwriadol | 599 | 312 | 247 | | 1,158 |
| Yr holl danau damweiniol | 608 | 324 | 446 | | 1,378 |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 122 | 91 | 145 | | 358 |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 58 | 57 | 55 | | 170 |


* Cyfanswm y galwadau = Cyfanswm y galwadau a drafodwyd gan yr Ystafell Reoli, yn uniongyrchol gysylltiedig gyda digwyddiadau brys ee digwyddiadau dilys, galwadau niferus, galwadau diangen, galwadau ffug (efallai nad oedd angen i adnodd o'r Gwasanaeth fynychu pob galwad).

## Cyfanswm y Galwadau 2011/12 (Ebrill i Rhagfyr 2011)

- ***Roedd gostyngiad o 6% neu 796 yn llai o alwadau o gymharu â 2010/11***
- ***Roedd gostyngiad o 11% neu 738 yn llai o ddigwyddiadau a oedd angen i'r Gwasanaeth fynychu***


Yn ystod tri chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth yr Ystafell Reoli ymdrin â 12,966 o alwadau, a bu'n rhaid i'r Gwasanaeth fynd at 5,837 o ddigwyddiadau - 738 yn llai na'r cyfanswm yn ystod tri chwarter cyntaf llynedd a 724 yn llai na'r cyfartaledd 3 blynedd.

**Cyfanswm Galwadau, a Lleoliadau'r Digwyddiadau a Fynychwyd**
*(OPSW_6.1)*




Yn Wrecsam bu'r nifer uchaf o alwadau a oedd gofyn i'r Gwasanaeth eu mynychu (9%) gyda'r nifer lleiaf yn Ne Gwynedd (2%). O'r holl alwadau a dderbyniwyd nid oedd angen i'r Gwasanaeth fynychu 55% ohonynt er enghraifft digwyddiadau nad oeddent yn ddilys, galwadau niferus, galwadau diangen wedi eu cadarnhau, neu alwadau ffug wedi eu cadarnhau.

**Digwyddiadau a fynychwyd, yn ôl categori** *Cyfnod cyfredol*




## Cyfanswm y Tanau

- ***Roedd gostyngiad o 6% neu 161 yn llai o danau o gymharu â'r un cyfnod yn 2010/11***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 2,375 o danau, sydd yn is na'r un cyfnod llynedd ac yn is na'r cyfartaledd 3-blynedd.

Yn gyffredinol, mae nifer y prif danau, tanau eilaidd a simnai wedi gostwng.

**Tanau a fynychwyd** *(cyfnod cyfredol)*




## Prif Danau

- ***Roedd gostyngiad o 5% neu 53 yn llai o brif danau o gymharu â 2010/11***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 979 o brif danau, sy'n well na llynedd ac yn well na'r cyfartaledd 3-blynedd. Mae hyn yn parhau'r tuedd am i lawr yn nifer y prif danau a fynychir.

## Tanau Eilaidd

- ***Roedd gostyngiad o 4% neu 52 yn llai o danau eilaidd o gymharu â 2010/11***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 1,264 o danau eilaidd, er fod hyn yn llai na llynedd mae'n parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd.

## Tanau Simnai

- ***Roedd gostyngiad o 30% neu 56 yn llai o danau simnai o gymharu â 2010/11***


Yn ystod tri chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 132 o danau simnai, sydd 56 yn llai o gymharu â llynedd. Mae hefyd yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

## Tanau yn ôl cymhelliad

Bu gostyngiad o tua 6% yn nifer y tanau damweiniol a bwriadol o gymharu â 2010/11, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau.

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 1,292 o danau a gychwynnodd yn ddamweiniol a 1,083 o danau a gychwynnwyd yn fwriadol.

**Tanau a fynychwyd, yn ôl cymhelliad** *(cyfnod cyfredol)*





---

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Roedd gostyngiad o 5% neu 16 yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â llynedd***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 342 o danau damweiniol mewn cartrefi, sy'n is na'r un cyfnod llynedd ac yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.


**Tanau Damweiniol mewn Cartrefi** *(cyfnod cyfredol)*



## Tanau mewn Eiddo Annomestig

- ***Roedd gostyngiad o 5% neu 9 tân yn llai mewn eiddo annomestig o gymharu â llynedd***

Yn ystod y cyfnod gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 161 o danau mewn eiddo annomestig, sy'n is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Bu gostyngiad yn nifer y tanau bwriadol a damweiniol.



## AROS YN DDIOGEL – RHESTR GYFEIRIO GRYNO


| **BLWYDDYN ADRODD – 2011/12** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HYHE - hyd yn hyn eleni | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigyrau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid (pc=pwynt canrannol) | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 8 | 3 | 9 | | 20 | ↓ 43% |
| Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 1 | 0 | 2 | | 3 | ↓ 57% |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi canu | 63% | 60% | 61% | | 61% | ➡ 0pc |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb ganu | 23% | 24% | 27% | | 25% | ↑ 2pc |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yno | 14% | 16% | 12% | | 14% | ↓ 2pc |

| **LLYNEDD – 2010/11** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 9 | 16 | 10 | | 35 |
| Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 5 | 0 | 2 | | 7 |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg yno | 64% | 67% | 56% | | 61% |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb ganu | 19% | 21% | 26% | | 23% |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yno | 17% | 12% | 18% | | 16% |

## Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Roedd gostyngiad o 43% neu 15 o anafiadau yn llai o gymharu â 2010/11***

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn cafodd 20 o bobl anafiadau (angen triniaeth ysbyty), sydd 15 yn llai na llynedd, ac sydd hefyd bron hanner yn llai na'r cyfartaledd 3 blynedd (37).




## Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Bu 3* marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi (disgwyl cadarnhad)***

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn bu 3 marwolaeth oherwydd 2 dân damweiniol. Bu i un farw yn dilyn tân yn ei gartref yn Llandudno (Conwy)a bu dau farw yn dilyn tân yn eu cartref ym Mabell (Sir y Fflint).

Adroddwyd yn flaenorol ynglŷn â'r marwolaeth yn dilyn tân ym Mryn Teg, Wrecsam, ond erbyn hyn, mae'r Crwner wedi cadarnhau fod y marwolaeth oherwydd `achosion naturiol' yn hytrach nag oherwydd y tân.


Ni fu marwolaethau oherwydd tanau bwriadol mewn cartrefi.

* ffigwr amodol – aros cadarnhad gan y Crwner

## Tanau mewn Cartrefi – Presenoldeb Larymau Mwg

- ***Roedd gan 61% o'r cartrefi ble bu tân larwm mwg wnaeth ganu, sydd yr un fath ag yn 2010/11***

Bu gostyngiad o 6% yng nghyfanswm y tanau mewn cartrefi neu 25 yn llai yn ystod 2011/12. 387 eleni o gymharu â 412 llynedd.




Yn 2011/12, yn ogystal â llynedd, roedd gan 61% (237 a 253) larwm mwg wnaeth ganu.

Yn yr un cyfnod eleni a llynedd, doedd gan y cyfran lleiaf o gartrefi ble bu tân ddim larwm wedi'i osod, yn 2011/12 roedd hyn yn 14% (53) o gymharu â 16% (66) y llynedd.

Yn y trydydd categori - larwm wedi'i osod ond heb ganu - roedd cynnydd bychan yn 2011/12 i 25% (97 o danau) o gymharu â 23% (93 o danau) llynedd.

Y prif reswm fod y larwm heb ganu er bod un wedi'i osod yn yr eiddo yw nad oedd y tân ddigon agos at y larwm.

| **RHESWM PAM FOD Y LARWM MWG HEB GANU** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Y tân ddim digon agos at y larwm mwg | 50 |
| Tân mewn ardal rhy bell o'r system | 11 |
| Dim batri yn y larwm | 9 |
| Nam ar y system | 8 |
| Cafwyd rhybudd mewn modd arall | 6 |
| Arall | 6 |
| Batri y larwm yn ddiffygiol | 5 |
| Larwm mwg wedi'i dynnu lawr | 1 |
| System wedi'i niweidio gan dân | 1 |
| Dim larwm yn bresennol | 53 |
| **Cyfanswm** | **150** |

## GALWADAU AM WASANAETH ARBENNIG *(dim tân)* – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

| BLWYDDYN ADRODD – 2011/12 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HYHE - hyd yn hyn eleni | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigyrau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl. Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Yr holl alwadau brys am wasanaethau arbennig | 265 | 260 | 259 | | 784 | ↓ 28% |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd (dim tân) | 114 | 119 | 129 | | 362 | ↓ 28% |


| LLYNEDD – 2010/11 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Yr holl alwadau brys am wasanaethau arbennig | 293 | 373 | 425 | | 1,091 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd (dim tân) | 137 | 165 | 199 | | 501 |

**<u>Galwadau Brys am Wasanaethau Arbennig (dim tân)</u>**

- ***Roedd gostyngiad o 28% neu 307 yn llai o ddigwyddiadau gwasanaethau arbennig o gymharu â llynedd***

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 784 o alwadau am wasanaethau arbennig, sydd dipyn yn is na llynedd a'r cyfartaledd 3 blynedd. Gellir priodoli hyn, yn rhannol, i'r Hydref mwynach a sychach a fu; yn ystod yr un cyfnod yn 2010/11 roedd y tywydd yn ddrwg gan gynnwys yr eira trwm a gafwyd yn Rhagfyr 2010.

Mae'r nifer o ddigwyddiadau gwasanaethau arbennig wedi gostwng flwyddyn ar flwyddyn ers 2008/09.



## GALWADAU DIANGEN – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

| BLWYDDYN ADRODD – 2011/12 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TA = Larymau Tân Awtomatig** | | | **HYHE - hyd yn hyn eleni** | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Cyfanswm galwadau diangen aethpwyd atynt | 859 | 958 | 861 | | 2,678 | ↓ 9% |
| Galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 37 | 34 | 25 | | 96 | ➡ 0% |
| Galwadau diangen oherwydd LTA mewn eiddo annomestig | 324 | 392 | 389 | | 1,105 | ↑ 7% |
| Galwadau diangen didwyll aethpwyd atynt | 349 | 362 | 284 | | 995 | ↓ 25% |

| LLYNEDD – 2010/11 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Cyfanswm galwadau diangen aethpwyd atynt | 910 | 1,027 | 1,011 | | 2,948 |
| Galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 31 | 26 | 39 | | 96 |
| Galwadau diangen oherwydd LTA mewn eiddo annomestig | 289 | 357 | 388 | | 1,034 |
| Galwadau diangen didwyll aethpwyd atynt | 429 | 466 | 430 | | 1,325 |

## Galwadau Diangen (yn gyffredinol)


- ***Roedd gostyngiad o 9% neu 270 yn llai o alwadau diangen o gymharu â llynedd***

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn, gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 2,678 o alwadau am gymorth, ond a drodd allan i fod yn alwadau diangen.

O ganlyniad i'r gwaith a wnaed, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol hon, ar ailstrwythuro'r modd cofnodir galwadau diangen a wneir, gellir nawr weld yr effaith wrth edrych ar ffigyrau tri chwarter cyntaf y flwyddyn, gyda galwadau diangen oherwydd offer awtoganfod tân mewn eiddo annomestig a galwadau diangen didwyll, yn debycach i'r cyfartaledd 3 blynedd nag i ffigyrau 2010/11.

Mae'r galwadau diangen maleisus yn hafal ag y llynedd ond yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Mae'r nifer o alwadau diangen LTA o eiddo nad oedd yn eiddo annomestig wedi parhau i ostwng, gyda gostyngiad o 2% o gymharu â llynedd, gan olygu fod y cyfanswm (482) llawer yn is na'r cyfartaledd 2 flynedd (609).



**DIFFINIAD O'R TANAU**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafannau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |